# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 01.05.09

**Yn bresennol:** Y Cynghorwyr W.Tudor Owen (Cadeirydd); John R. Jones; Gwilym O.Williams.

**Hefyd yn bresennol:** Sion Huws (Swyddog Priodoldeb), Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu) ac Eirian Roberts (Swyddog Pwyllgor).

**Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:**

**Yn cynrychioli'r Heddlu:** Mr Ian Williams (Cydlynydd Trwyddedu'r Heddlu) a'r Rhingyll Bill Coppack (Swyddfa'r Heddlu Bangor).

**Ymgeiswyr:** Mr. G.H. Sadeghi Namaghi a Mrs. Sarah Sadeghi Namaghi.

**Gwrthwynebwyr:** Arfona Davies, Ellen Roberts, Peter Talbot, Kath Thomas.

**Aelod Lleol:** Y Cynghorydd Keith Marshall (hefyd yn siarad ar ran Cyngor Dinas Bangor a Karl Sadil (gwrthwynebwr)).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd June Marshall (aelod lleol); Karl Sadil, Kevin Talbot a Warden Llety Cysgodol Craig Menai (gwrthwynebwyr).

## 1. CAIS I WYRO TRWYDDED EIDDO Y PIZZA HOUSE, FFORDD CAERGYBI, BANGOR

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu yn rhoi manylion ar gais gan berchennog y Pizza House, Ffordd Caergybi, Bangor i wyro'r drwydded bresennol ar yr eiddo i ganiatáu gwerthiant o fwyd poeth hyd at 02.30am bob dydd, gyda'r eiddo'n cau i'r cyhoedd am 02.45am. Adroddwyd y derbyniwyd llythyr gan yr Heddlu yn gwrthwynebu'r cais ar y sail y bu'r eiddo yn agored ar ôl yr oriau a ganiatawyd ar ddau achlysur; llythyr gan y Gwasanaeth Tân yn datgan dim gwrthwynebiad a llythyrau gan y Cyngor Dinas, y Cynghorydd Keith Marshall a thrigolion cyfagos yn gwrthwynebu'r cais ar sail amhariaeth sŵn. Ymddiheurodd y Rheolwr Trwyddedu fod e-bost yn ymwneud â chais cwbl wahanol wedi'i gynnwys yn y rhaglen trwy amryfusedd.

Dosbarthwyd copïau o drwydded gyfredol yr eiddo i'r aelodau.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

Cafodd yr ymgeisydd gyfle i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

Gwahoddwyd pob Ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig

Cafodd yr ymgeisydd gyfle i ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion.

Gwahoddwyd aelodau'r Is-bwyllgor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd.

Cafodd cynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd gyfle i grynhoi eu hachos.

Cadarnhaodd yr Heddlu mai eu rheswm pennaf dros wrthwynebu'r cais oedd y ffaith bod yr eiddo wedi bod yn agored ar ôl yr oriau a ganiatawyd ar ddau achlysur. Ers hynny, 'roeddent wedi cael cyfarfod Lefel 2 gyda'r ymgeiswyr ac wedi dod i gytundeb. O ganlyniad, byddai'r

ymgeiswyr yn aros ar Lefel 2 am y pedwar mis nesaf, ond petai yna unrhyw dor-amod pellach, byddai'r mater yn cael ei symud ymlaen i'r cam nesaf. O ganlyniad, cadarnhawyd nad oedd yr Heddlu bellach yn gwrthwynebu'r cais. Nodwyd hefyd nad oedd yr Heddlu wedi gwrthwynebu dau gais arall oedd union yr un fath â'r cais hwn ac felly y byddai'n annheg iddynt wrthwynebu'r cais hwn.

Yna cefnogodd y Cynghorydd Keith Marshall ei argymhellion fel aelod o Gyngor Gwynedd ac o Gyngor Dinas Bangor drwy nodi ei fod yn bryderus y byddai ymestyn yr oriau yn arwain at gynnydd yn lefel y sŵn a chynnwrf gan gwsmeriaid sy'n aros yn hwy. Eglurodd fod yr eiddo yn agos i adeiladau preswyl, ac nid yn yr un sefyllfa â'r siopau prydau parod eraill ym Mangor Uchaf. 'Roedd pob un, ac eithrio un, o'r eiddo trwyddedig sy'n gwerthu alcohol ym Mangor Uchaf yn cau yn rheolaidd am 01.30am ac 'roedd o'r farn bod caniatáu i'r Pizza House fod yn agored hyd 02.00am yn rhoi digon o gyfle iddynt roi gwasanaeth i'r bobl sy'n gadael yr eiddo trwyddedig hyn. Ychwanegodd fod rhaid cydbwyso buddiannau busnes yr ymgeisydd a'r effaith ar drigolion lleol, ond 'roedd o'r farn y byddai lefel yr anghyfleustra y byddai hyn yn ei olygu i drigolion lleol yn golygu y dylid gwrthod y cais.

Yna siaradodd y Cynghorydd Keith Marshall ar ran Karl Sadil, oedd wedi ysgrifennu i wrthwynebu. Nododd fod Mr. Sadil wedi cael problemau gydag ysbwriel, yr oedd yn ei adnabod fel bocsys o'r eiddo, yn cael ei daflu i'w ardd. Ar hyn o bryd, 'roedd pobl sy'n aros yn y cyffiniau ar ôl amser cau'r eiddo yn achosi aflonyddwch a byddai ymestyn yr oriau yn rhoi mwy o amser i Mr. Sadil a thrigolion eraill gael eu haflonyddu gan gwsmeriaid.

Cefnogodd Mrs. E.J.Roberts ei hargymhellion ysgrifenedig a datganodd ei bod yn cael ei deffro tua 02.00am gan sŵn. Crybwyllodd hefyd achosion o fandaliaeth, ond nid oedd yn siŵr os oedd hyn gan gwsmeriaid yr eiddo. Dywedodd fod ysbwriel yn broblem, ond sŵn oedd ei phryder pennaf. Pan ofynnwyd iddi, nid oedd yn sicr os oedd y sŵn neu'r fandaliaeth wedi eu hachosi gan gwsmeriaid yr eiddo.

Cadarnhaodd Peter Talbot, perchennog yr eiddo drws nesaf, ei sylwadau ysgrifenedig. 'Roedd ei fab sy'n byw yn yr eiddo hefyd yn gwrthwynebu, ond yn methu bod yn bresennol. Tra nad oedd ganddo unrhyw beth yn erbyn yr ymgeiswyr, 'roedd ei eiddo yn cael ei effeithio gan gwsmeriaid. 'Roedd yn bryderus hefyd bod cerbydau yn parcio ar y llinellau melyn dwbl oddi allan i'r eiddo. Dywedodd fod pobl yn ymgynnull oddi allan ac wedi malu caead ffenest'. Hefyd, 'roedd yn gorfod glanhau'r palmant o flaen ei eiddo oherwydd ysbwriel a chwŷd sy'n bresennol yn y boreau. Dadleuodd, pe na bai'r Pizza House yn agored, ni fyddai pobl yn ymgynnull y tu allan i'w eiddo, gan nad oedd rheswm arall iddynt fod yno. Byddai ymestyn yr oriau yn gwaethygu'r sefyllfa.

Yna siaradodd yr ymgeisydd o blaid y cais. Cadarnhaodd Mr. Namaghi, yn groes i'r hyn a ddywed un o'r gwrthwynebwyr, ei fod yn cysgu yn yr eiddo bob nos ac felly y byddai'n ymwybodol o unrhyw niwsans a achosir gan gwsmeriaid. Dadleuodd fod myfyrwyr yn mynd heibio i'r eiddo wrth ddychwelyd i'w neuaddau preswyl beth bynnag ac na fyddai ymestyn yr oriau yn newid y sefyllfa. 'Roedd siop prydau parod arall, tua 100-150m i ffwrdd wedi cael ymestyn eu trwydded hyd at 02.30am ac nid oedd eu sefyllfa yn wahanol i'w eiddo ef. Eglurodd fod llawer o'i fusnes yn dod gan fyfyrwyr ar eu ffordd adref yn ôl o ganol y ddinas ac o glwb nos Time, sy'n cau am 02.00am. Gan hynny, 'roedd angen ymestyn yr oriau er mwyn rhoi gwasanaeth i'r cwsmeriaid hyn. Cadarnhaodd nad oedd yn bresennol yn yr eiddo ar yr adegau y bu'n agored ar ôl oriau'r drwydded a sicrhaodd na fyddai hyn yn digwydd eto. Byddai'n gwneud popeth o fewn ei bwerau i atal unrhyw broblemau a dadleuodd nad ei gwsmeriaid oedd yn gyfrifol am y problemau achoswyd.

Gadawodd yr ymgeiswyr, cynrychiolwyr yr Heddlu, y Rheolwr Trwyddedu, yr aelod lleol a'r gwrthwynebwyr y cyfarfod a thrafodwyd y cais gan aelodau'r Is-bwyllgor gan ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, a gan roddi sylw penodol i egwyddorion y ddeddf sef:

- Rhwystro Trosedd ac Anrhefn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Rhwystro Niwsans Cyhoeddus ac
- Amddiffyn Plant Rhag Niwed

a’r defnydd o’r prawf tystiolaethol o’r hyn sy’n debygol. Ystyriodd yr Is-Bwyllgor, yn enwedig, yr amcan trwyddedu o atal niwsans cyhoeddus a’r dystiolaeth a roddwyd gan yr ymgeiswyr a’r gwrthwynebwyr. Ystyriwyd agosrwydd yr eiddo at eiddo preswyl a’r nifer o eiddo preswyl yn y cyffiniau. Bu’r Is-Bwyllgor yn pwyso a mesur buddiannau’r ymgeisydd a’r trigolion lleol a phenderfynwyd y byddai caniatáu y cais yn arwain at gynnydd yn yr achosion o niwsans cyhoeddus.

**PENDERFYNWYD gwrthod y cais.**

Datganodd y Cadeirydd nad oedd y penderfyniad yn unfrydol.

Adroddodd y Swyddog Priodoldeb y byddai llythyr yn cael ei anfon at yr ymgeiswyr o fewn yr wythnos yn cadarnhau dyfarniad yr Is-Bwyllgor, ac yn eu hysbysu o’r hawl i apelio yn erbyn y dyfarniad o fewn tair wythnos i ddyddiad y llythyr hwnnw.

Dechreuodd y cyfarfod am 2.00pm a daeth i ben am 3.20pm